Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Y Ffin
# Cil-y-Coed
# Sir Fynwy
# NP26 4NQ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Y Ffin yng Nghil-y-Coed, Sir Fynwy. Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig Gymraeg sy'n gwasanaethu ardal yn cynnwys y gymuned o'i chwmpas ac ardaloedd cyfagos. Sefydlwyd yr ysgol yn 2001 a symudwyd i'r adeilad presennol yn 2008.

Daw'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion o ddalgylch y mae'r ysgol yn ei ddisgrifio fel un sydd heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig. Mae gan 11% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran cenedlaethol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu drwy'r ysgol, gan gyflwyno'r Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Adeg yr arolygiad, roedd 101 o ddisgyblion (cyfwerth amser llawn) rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr o gymharu â 46 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2005. Daw tua 4% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a tua thraean o ddisgyblion o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad y Gymraeg. Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers 2004.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Ffin yw £4,153 sy'n cymharu gydag uchafswm o £14,200 ac isafswm o £2,965 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Fynwy. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 9fed uchaf o'r 34 ysgol gynradd yn Sir Fynwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda a'r mwyafrif yn dangos cymhelliant;
- bod yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau i'r disgyblion; a
- bod safon cyffredinol yr addysgu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a rheolwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n cael ei chyfleu'n effeithiol;
- bod rheolwyr ac arweinwyr yn hyrwyddo gwerthoedd cadarn sy'n cydnabod cyfraniad disgyblion a staff;
- bod cyswllt effeithiol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu a chynllunio strategol yr ysgol; a
- bod gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o berfformiad yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau cysondeb yn nisgwyliadau staff ar draws yr ysgol;

A2 parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog;

A3 sicrhau bod cyfrifoldebau rheolaethol yn cael eu dosrannu ymhlith y staff;

A4 mirenio'r trefniadau hunan arfarnu er mwyn cynnwys monitro ac arfarnu'r addysgu; a

A5 mireinio blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun gweithredu.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae'r plant yn amrywio o ran gallu. Er hynny, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r data'n dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad y bechgyn o'u cymharu â'r merched ar draws y ddau gyfnod allweddol. Er hynny, nid yw hyn yn amlwg yn eu gwaith nac yn eu perfformiad yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad. Mae disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, o gefndir lleiafrifol ethnig, neu sydd â'r hawl i ginio am ddim yn gwneud cynnydd priodol.

At ei gilydd, mae medrau Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn dda o ystyried eu cefndir ieithyddol. Yn y cyfnod sylfaen maent yn deall ac yn ymateb yn dda i amrywiaeth eang o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Mae'r goreuon yn dangos blaengaredd yn eu medrau llafar. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r mwyafrif yn siarad yn gywir ac yn hyderus. Ar y cyfan, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n briodol trwy'r ysgol. Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn dda gyda'r goreuon yn darllen yn gywir ac yn hyderus gyda mynegiant. Mae gwybodaeth y disgyblion am hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd Cymru yn gadarn.

Mae medrau Saesneg mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol dau hefyd yn dda. Mae'r mwyafrif yn siarad yn hyderus, yn darllen yn gywir ac yn ysgrifennu'n ddiddorol gyda'r goreuon o'r disgyblion hŷn yn medru ysgrifennu'n helaeth, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau.

Mae gan bob disgybl y medrau sy'n eu caniatáu i gyfranogi'n llawn yn holl elfennau'r cwricwlwm ehangach fel y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae safonau disgyblion cyfnod allweddol 1 yn y dosbarthiadau yn uwch na'r safonau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y data. Mae eu targedau ar gyfer eleni yn ategu hyn.

Er 2007, mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio ym mhob un o'r pynciau craidd (Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) a hefyd yn y dangosydd pynciau craidd (y canran sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig yn y tri phwnc gyda'i gilydd). Mae canlyniadau'r ysgol wedi amrywio o gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, a Chymru. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae safle'r ysgol wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ym mhob un o'r pynciau craidd. Roedd yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd pynciau craidd a phob pwnc craidd yn 2010. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefel 3 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyfan yn cymharu'n ffafriol â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Bu cynnydd yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 dros dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Roedd canlyniadau 2010 yn is nag yn 2009 a 2008. Ond

dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru ac eithrio yn 2008 pan oedd ychydig is na chyfartaledd y teulu. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim, mae safle'r ysgol wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf rhwng y 25% uchaf a'r 50% isaf ym mhob un o'r pynciau craidd yng ngyfnod allweddol 2. Yn 2010, cyflawnodd traean o'r disgyblion perthnasol lefel 5 yn y Saesneg sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru. Cyrhaeddodd 16% lefel 5 yn y Gymraeg sy'n uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na Chymru. Roedd y canran a gyflawnodd lefel 5 ym mathemateg a gwyddoniaeth yn is na'r teulu a Chymru.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda mewn gwersi ac ar yr iard. Mae'r mwyafrif yn dangos cymhelliant ac maent yn falch o'u gwaith. Mae bron pob un yn mwynhau dysgu ac ar y cyfan yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu eu hunain.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut y gallant gadw'n iach. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff ar gyfer eu datblygiad personol ac addysgol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cymryd eu tro yn gydwybodol wrth ofalu am y plant iau ar wahanol adegau'n ddyddiol.

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros y tri thymor diwethaf dros 95%, sy'n uwch na'r cyfradd cenedlaethol, ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim yn 2009-2010. Drwy waith effeithiol y cyngor ysgol a gweithdrefnau eraill yr ysgol mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau cyfleoedd cyson i gyfrannu at fywyd a datblygiad yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder ac agweddau positif, ac maent yn dangos parch at blant eraill ac oedolion. Mae gan y mwyafrif ymagweddau aeddfed sy'n sylfaen dda ar gyfer datblygu ymhellach eu sgiliau bywyd. Maent hefyd yn datblygu eu hyder drwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned ehangach, fel y gwasanaeth carolau blynyddol yn yr eglwys Fethodistaidd yng Nghas-gwent a Gwasanaeth Sul blynyddol yr Urdd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda ac yn cynnwys gofynion y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn cael lle amlwg o fewn y cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol. Mae'r gweithgareddau dysgu'n cynnwys tasgau penodol sydd wedi eu cynllunio er mwyn cau'r gagendor rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched. Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion o fewn y mwyafrif o'r gwersi a arsylwyd. Ar ei orau, mae hyn yn effeithiol, ond nid yw bob amser yn diwallu holl anghenion y disgyblion mwyaf galluog. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn un o'i chryfderau. Darperir tasgau diddorol i ddisgyblion

ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r athrawon yn frwdfrydig wrth ddarparu cyfleoedd eang a diddorol er mwyn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd Cymru trwy waith thematig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarn ac wedi ei hymgorffori'n llawn i fywyd yr ysgol ar draws y cwricwlwm a thrwy weithgareddau'r cyngor ysgol a chyngor eco. Gweithreda'r ysgol mewn modd cynaliadwy ac mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson i wella'u cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu ar y cyfan yn dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth gadarn o anghenion grwpiau ac unigolion o fewn eu dosbarth. Bron yn ddieithriad, mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth er mwyn cefnogi'r addysgu a datblygu medrau disgyblion yn unigol neu mewn grwpiau.

Yn y gwersi gorau, mae cyflymdra addas, tasgau diddorol a heriol, cwestiynu treiddgar a pherthynas waith gynhyrchiol rhwng athro a disgybl sy'n meithrin parch a chwrteisi. Mae'r ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar yn amlwg yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau. Mae disgwyliadau'r athrawon ar y cyfan yn uchel, er hynny, nid yw hyn bob amser yn wir ar gyfer y disgyblion hŷn. Gwneir defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel cyfrwng addysgu ar draws yr ysgol.

Mae systemau asesu effeithiol gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r drefn hon. Mae system dracio gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol, gan gynnwys disgyblion galluog a'r rhai sy'n debygol o dangyflawni erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae enghreifftiau da o farcio manwl ac ymateb adeiladol i waith disgyblion, sy'n eu helpu i ddeall sut i ddatblygu eu gwaith ysgrifennu. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn galluogi'r disgyblion i bennu targedau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau ysgrifenedig pwrpasol yn flynyddol i'r rhieni ar gynnydd eu plant.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n llwyddiannus yn yr ysgol. Defnyddir strategaethau fel 'bawd i fyny', a 'golau traffig' i hyrwyddo hyn gyda'r disgyblion iau. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth i les a diogelwch plant. Mae ganddi weithdrefnau cynhwysfawr a chysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau iechyd, a lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol, asiantaeth cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol. Anogir y disgyblion i fynegi barn ac i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod yn gysylltiedig â gweithgareddau o fewn y gymuned leol.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau

addoli ar y cyd.  Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn ddyddiol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhob gweithgarwch.  Mae’r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda.  Mae’r cyfleoedd i ddatblygu cydymdeimlad â diwylliannau eraill er mwyn deall y gwahaniaethau rhwng pobl o wahanol rannau o’r byd yn effeithiol iawn.  Mae nifer o’r disgyblion yn awyddus iawn i godi arian tuag at elusennau megis Apêl Haitii.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant.  Mae’r rhain yn wybyddus i’r holl staff a gŵyr y disgyblion at bwy i droi pan fydd angen.

Mae polisïau priodol hefyd yn eu lle ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn cael eu gweithredu’n llawn.  Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi holl ddisgyblion sydd wedi cael eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae’r ysgol wedi nodi disgyblion mwy abl a dawnus.  Er hynny, nid yw’r ddarpariaeth hyd yn hyn wedi ei datblygu’n llawn er mwyn ymestyn y disgyblion mwyaf galluog ymhob dosbarth.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos gynhwysol iawn yn yr ysgol.  Mae’r gymuned gynnes ymhlith y pennaeth, y llywodraethwyr a’r disgyblion yn darparu cyfleoedd cyfartal i’r disgyblion i holl feysydd darpariaeth yr ysgol.  Rhoddir pwyslais ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae safle’r ysgol yn eang.  Mae’r disgyblion eu hunain yn rhan o’r cynllunio ar gyfer y defnydd o ardaloedd yr ysgol, er enghraifft yr ardal tu allan.  Mae adnoddau pwrpasol sy’n bodloni anghenion y dysgu a chaiff yr adeilad a thir yr ysgol eu cadw’n lân a thaclus.  Er bod ardaloedd pwrpasol o fewn dosbarthiadau’r cyfnod sylfaen, nid yw’r ardaloedd awyr agored wedi eu datblygu’n llawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r rheolwyr ac arweinwyr yn hyrwyddo gwerthoedd cadarn sy’n cydnabod cyfraniad disgyblion a staff.  Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn cael ei chyfleu yn effeithiol.  Fodd bynnag, mae diffyg tîm rheoli cydnabyddedig a dosrannu cyfrifoldebau arwain yn rhoi baich sylweddol o gyfrifoldebau ar y pennaeth.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio’n briodol ar faterion gwella perfformiad gan gynnwys y blaenoriaethau gwelliant.  Yn gyffredinol, mae’r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas â nodau a chynlluniau’r ysgol yn effeithiol.  Defnyddir data yn dda i ddadansoddi a monitro perfformiad.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sy’n helpu staff i wella eu harferion.  Mae’r trefniadau yn arwain at dargedau addas sy’n cwmpasu anghenion hyfforddi a datblygu unigolion a blaenoriaethau ysgol gyfan.  Mae’r trefniadau yn ymestyn yn briodol i holl staff dysgu a chefnogi'r ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o berfformiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn deall y materion sy'n codi o gymharu'r perfformiad ag ysgolion tebyg. Mae'r corff yn cyfrannu'n briodol at y trefniadau hunan arfarnu a blaenoriaethu gwelliannau. Mae gan yr aelodau ystod addas o brofiad ac fe fanteisir ar ddarpariaeth hyfforddi oddi mewn a thu allan i'r awdurdod lleol i ddatblygu arbenigeddau perthnasol. Mae'r corff yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol fel cyfaill beirniadol ac mae trefniadau addas yn eu lle i adrodd i rieni a delio â chwynion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda ac mae cynlluniau priodol ar gyfer datblygiad pellach ym Medi 2011 yn eu lle. Mae'r ysgol yn datblygu rhai egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion o fewn ei chynllun datblygu presennol. Mae datblygiad 'Grŵp Enfys', sef darpariaeth i feithrin lles emosiynol disgyblion, wedi cyfoethogi lles disgyblion yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hunan arfarnu yn ddigonol ac maent wedi eu hymgorffori yng nghynllunio strategol yr ysgol. Caiff data cymharol ei ddadansoddi'n effeithiol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella, ynghyd â chanlyniadau profion safonol. Rhoddir ystyriaeth lawn i arfarniadau parhaus o les disgyblion. Mae'r trefniadau hunan arfarnu hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i farn y disgyblion a rhieni yn ogystal ag argymhellion swyddogion gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu wedi eu datblygu'n ddigonol o fewn y cynllun.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n deillio o'r weithdrefn hunan arfarnu yn cysylltu'n dda â chynllun gwella'r ysgol ac mae strategaethau i gyfarfod â'r gwelliannau sydd eu hangen wedi eu datblygu'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o weithdrefnau gan bennu cyfrifoldeb arweiniol aelodau staff dros eu cydlynu. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant, amserlenni penodol a chofnod o'r adnoddau a glustnodwyd. Fodd bynnag, mae amserlen y rhaglen waith yn y cynllun gwella presennol yn rhy heriol i sicrhau cynnydd priodol yn erbyn y nifer sylweddol o flaenoriaethau sydd wedi eu cynnwys.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad ddiwethaf.

Mae ymwneud yr ysgol â chymunedau dysgu proffesiynol yn datblygu'n dda. Bu'r ymglymiad â rhwydwaith lleol o bedair ysgol yn gyfraniad buddiol at ddatblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at adnabod, datblygu a hybu arfer dda mewn dysgu ac asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau ag ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach ac uwch a grwpiau cymunedol lleol.

Mae cysylltiadau gwaith effeithiol yn bodoli â gwasanaethau cefnogol yr awdurdod lleol gan gynnwys y gwasanaeth lles addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Bu ffocws arbennig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar y bartneriaeth â'r

gwasanaethau adeiladau a arweiniodd at ailfodelu rhannau o'r ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â phrifysgolion a sefydliadau addysg bellach lleol i hyfforddi athrawon a staff cynorthwyol. Mae hefyd yn derbyn myfyrwyr a disgyblion profiad gwaith o dair ysgol uwchradd.

Mae'r cyswllt parhaus â rhieni yn cynnal y bartneriaeth effeithiol a chefnogol sy'n bodoli â hwy. Mae ymwneud rhieni â chynlluniau megis hybu darllen yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r bartneriaeth yn elwa hefyd o gyfraniad arbenigol rhieni at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol ac yn gymdeithasol o gefnogaeth cymdeithas weithgar 'Ffrindiau'r Ffin'.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar y cyd ag ystod o bartneriaid i gyflwyno rhaglenni sy'n gwella deilliannau a lles disgyblion. Er enghraifft, arweiniodd gwaith gyda chymdeithas yn ymwneud â diogelwch ar gludiant ysgol at weithdy a gododd ymwybyddiaeth disgyblion o'r peryglon all godi wrth deithio i'r ysgol. Mae cyswllt agos â'r gwasanaeth heddlu wedi cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o beryglon sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol. Mae trefniadau pontio â'r ysgol uwchradd yn dda ac yn cynnwys cyfleoedd priodol i gyd safoni gwaith disgyblion. Sefydlwyd hefyd bartneriaeth effeithiol â'r Mudiad Ysgolion Meithrin a chylchoedd lleol. Mae hyn yn sicrhau trefniadau trosglwyddo effeithiol i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r disgyblion ac, yn gyffredinol, fe wneir defnydd effeithiol o amser, arbenigedd a phrofiad aelodau staff. Gwneir defnydd da o gynorthwywyr dysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys yn y cyfnod sylfaen ac wrth gynnal disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn defnyddio amser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol ac mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol sy'n ymwneud â baich gwaith. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu rheoli'n briodol.

Dyrennir cyllid ar gyfer gweithredu anghenion gwella'r ysgol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau monitro'r gyllideb o fewn yr ysgol yn briodol ac yn gymorth i sicrhau fod yr holl adnoddau sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu clustnodi'n gost-effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ystyried y safonau da a'r defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrannwyd iddi.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron y disgyblion:**

Cafwyd barn 49 o ddisgyblion.

Mae bron pob un yn teimlo bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan ydynt yn poeni neu'n gofidio. Maent hefyd yn meddwl bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron ar gael iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio ag unrhyw fwlio. Maent hefyd o'r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y gwersi, amser chwarae ac amser cinio, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os byddan nhw'n gweld y gwaith yn anodd.

**Holiaduron i rieni a gofalwyr:**

Cafwyd barn 32 o rieni.

Mae bron pob un o'r rhieni a gofalwyr yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, bod yr ysgol yn annog ei disgyblion i gadw'n iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un yn teimlo bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf yn honni bod yr addysgu'n dda, bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da yno. Maent hefyd yn teimlo bod gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, bod y gwaith cartref a osodir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol a bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Maent yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf hefyd o'r farn bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae llawer o'r rhieni a gofalwyr yn fodlon bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, a'u bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae lawer hefyd yn hapus eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio ag unrhyw gwynion, bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwyneth Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Diane Ebo | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |